# JONES (neu JOHNS), ' Syr ' THOMAS (bu farw 1622?), clerigwr a bardd

**Enw:** Thomas Jones
**Dyddiad marw:** 1622?
**Plentyn:** Walter Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Aeth yr hen eiriaduron ar gyfeiliorn; y mae'n amlwg i rywun gymysgu rhwng Thomas Jones a'r David Johns neu Jones a fu yn Llanfair Dyffryn Clwyd. Ar wahan i hwnnw, nid oes Jones na Johns o gwbl yn rhestr D. R. Thomas (*A History of the Diocese of St. Asaph*, ii, 100) o bersoniaid cyfoes Llanfair Dyffryn Clwyd.

Y mae yn llawysgrif B.M. Add. 14878, a sgrifennwyd tua 1692, awdl-gywydd ar y waredigaeth rhag yr Armada, gan ' Thomas Jones, Person Llanfair ym Mynwy '; argraffwyd hi gan J. H. Davies yn *Hen Gerddi Gwleidyddol* (Cymdeithas Llên Cymru). Llanfair Cilgedin (nepell i'r dwyrain o Lanofer) ydyw'r plwyf; yr oedd Thomas Jones yn rheithor yno yn 1590 (Bradney, iv, 258-9), a chan i'w fab Walter ei ddilyn yno ym Medi 1622, tebyg iddo farw yn 1622 neu 1621.

Y mae hefyd awdl-gywydd o ddiolch am y *Beibl Cymraeg*, gan ' Sir Tho: Johns ' (Llanstephan MS 41 - llawysgrif gyfoes), ' Syr Thomas Johns, circa 1600 ' (Panton 41, 18fed ganrif), ' Syr Thomas Jones ' (Cwrtmawr 12, 18fed ganrif - gweler hefyd Cwrtmawr 454), ' Syr Tomas Jones, offeiriad Llandeilo Bertholeu ' (Iolo MS. 40). Argraffwyd hon yn *Cymru Fydd*, 1889 (404-6), yn *Hen Gwndidau* (187-92), ac yn *Canu Rhydd Cynnar* Parry-Williams (367-72). Fe sylwir mai'r 'Iolo MS.' yn unig sy'n cysylltu'r bardd â Llandeilo'r Bertholau; ac y mae gan ' Iolo Morganwg ' nodyn arno (a ddyfynnir yn *Hen Gwndidau*, 282) a dynnwyd, meddai ef, ' o Lyfr Harri Siôn o Bont y Pwl ' (Henry John) - nid oes fodd gwybod pa faint ohono sy'n wir, nac ychwaith a yw W. O. Pughe yn iawn pan ddywed yn y *Cambrian Biography* (ar dystiolaeth ' Iolo,' mae'n debyg) i Thomas Jones gymryd rhan mewn 'eisteddfod' yn Llandaf yn 1588. Y peth a wyddys i sicrwydd yw bod rhyw Thomas Johns yn ficer Llandeilo (ac yn byw yno) yn 1560 (Browne Willis, *Llandaff*, 205), a'i fod wedi diflannu oddi yno ar ddyddiad amhendant cyn diwedd y ganrif (Bradney, ii, 208 - ' Thomas ap John '). Y farn gyffredin (gweler G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, 129) yw mai'r un gwr sydd yma, ac fe welir nad yw'r dyddiadau uchod yn gwahardd credu hynny. Bernir hefyd (G. J. Williams, loc. cit.) mai ef a wnaeth y gwndid (Llanover MS. 23) sy'n dechrau 'Nid llai'n beie na'n pechode' (gweler *Hen Gwndidau*, 281), y mae ei hawdur yn ei alw ei hunan yn 'fab hen brelad sydd offeyriad.' Ond ni ellir bod yn sicr o hyn, gan fod rhyw Thomas Jones arall cyfoes yn ficer Llanarth gyfagos (Mehefin 1589 meddai Foster, 'Index to Institutions,' N.L.W. 1626; 1602 yn Bradney, i, 310). Gwelir hefyd yn N.L.W. 1553 englyn unig gan ' Syr T. Johns,' ac yn N.L.W. 13068 gyfres o englynion gan ' Syr T. Jones ' i ' Syr William ' - nid clerigwr oedd hwnnw, eithr marchog, a gall mai Syr William Herbert o S. Julians, ydoedd.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Archifau LlGC: Llanstephan MS 41: Poetry (195)

*Llawysgrifau Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 12 (519), 454 (301)

*NLW MSS* 1553 (785), 13068 (135)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733703


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu